RHAGLEN WAITH CRAFFU'R PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU AR GYFER BLWYDDYN Y CYNGOR 2021/22

Dwyn yr Adain Weithredol a'r Cyngor i gyfrif mewn perthynas â phob un o'r tair blaenoriaeth yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor. **Sicrhau bod Pobl: yn annibynnol, yn iach ac yn llwyddiannus. Creu Lleoedd y mae pobl yn falch o gael byw, gweithio a chwarae ynddyn nhw; 3. Galluogi Ffyniant: creu'r cyfle i bobl a busnesau fod yn arloesol, yn entrepreneuraidd ac i gyflawni eu potensial a ffynnu.**

Mae pob un o Bwyllgorau Craffu'r Cyngor yn gyfrifol am bennu ei raglen waith ei hun a chytuno arni, drwy nodi rhestr o themâu a phynciau sy'n berthnasol i gylch gorchwyl pob Pwyllgor Craffu. Yn dilyn trafodaeth gyda'r Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Craffu, caiff rhaglen ymarferol a realistig wedi'i hamserlennu ei datblygu.

Dylai blaenraglenni gwaith y pwyllgorau craffu roi rhesymeg eglur ynglŷn â pham y mae materion penodol wedi'u dewis. Dylen nhw ganolbwyntio ar ganlyniadau a sicrhau bod y dull craffu sydd wedi'i ddewis yn gweddu i'r pwnc a'r canlyniadau y gobeithir amdanyn nhw. Dylen nhw hefyd alinio rhaglenni craffu gyda threfniadau rheoli cyflawniad, hunan asesu a gwelliant y Cyngor.

Drwy gydol y flwyddyn, mae nifer o ffyrdd y mae modd cynnwys materion ychwanegol yn y Rhaglen Waith Craffu, ac mae modd i syniadau i'w cynnwys ddod o nifer o ffynonellau, fel:-

- Cynghorwyr unigol;
- Gwybodaeth monitro cyflawniad neu gyllideb;
- Adroddiadau arolygu;
- Atgyfeiriadau gan y Cyngor (fel Rhybuddion o Gynnig), y Cabinet/y Pwyllgor Archwilio neu bwyllgorau craffu eraill;
- Defnyddwyr y Gwasanaeth;
- Monitro gweithrediad argymhellion sydd wedi'u gwneud gan y pwyllgor yn flaenorol; a
- Trigolion lleol.

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cabinet lunio blaenraglenni gwaith, ac mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cadw golwg ar eitemau neu bynciau sydd ar ddod a fydd o bosibl yn galluogi'r pwyllgorau craffu i chwarae rhan yng ngwaith datblygu polisi ar ran y Cyngor, cyn iddo gael ei ystyried yn ffurfiol gan y Cabinet. Mae'n bwysig cofio bod elfen o hyblygrwydd i bob rhaglen waith unigol sy'n rhoi'r gallu i Bwyllgorau graffu ar faterion newydd/brys sy'n codi yn ystod y flwyddyn.

Dyddiad/Amser	Nod cyffredinol	Swyddog	Aelod o'r Cabinet	Craffu yn canolbwyntio ar...
5 Gorffennaf 2021	• **Rhaglen Waith Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2021/2022 (Drafft)** • **Rhaglen Waith y Cabinet 2021/2022**	• Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu		**Craffu a Her –** Er mwyn i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu gymeradwyo'i raglen waith a nodi cyfleoedd cyn y cam craffu yn rhan o Raglen Waith y Cabinet ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021/2022
	• **Cynigion i wella diogelwch tomenni glo yng Nghymru - Croesawu Comisiwn y Gyfraith (Cymru a Lloegr)**	• Comisiwn y Gyfraith (Cymru a Lloegr) • Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu • Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Rheng Flaen		**Craffu a Her –** Cyfrannu at yr ymgynghoriad mewn perthynas â'r drefn diogelwch tomenni glo newydd arfaethedig yng Nghymru
16 Gorffennaf 2pm (Pwyllgor Arbennig)	• **Model Buddsoddi Cydfuddiannol Band B** - Derbyn yr argostau a'r rhaglen	• Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu		**Craffu a Her -** Gwaith Cyn y cam craffu mewn perthynas â Buddsoddi Cydfuddiannol Band B.

	• **Ymatebion i'r ymgynghoriad -** llunio ymatebion ffurfiol i'r ymgynghoriad sy'n ymwneud â'r drefn diogelwch tomenni glo newydd arfaethedig yng Nghymru	• Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant • Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu		**Craffu a Her –** Cyfrannu at yr ymgynghoriad sy'n ymwneud â'r drefn diogelwch tomenni glo newydd arfaethedig yng Nghymru
21 Medi 2021	• **Adroddiadau Statudol Adran 19 - Llifogydd**	• Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu • Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Rheng Flaen		**Craffu a Her** – Trafod Adroddiadau Statudol Adran 19 ar ddiwedd yr ymchwiliadau parhaus y mae'r Cyngor yn eu cyflawni mewn perthynas â'r Llifogydd ym mis Chwefror, ac yntau'n gweithredu fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (LLFA) yn unol â Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.
	• **Adroddiad Blynyddol a Llythyr yr Ombwdsmon**	• Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol		**Craffu a Her –** Trafod adroddiad blynyddol a llythyr yr Ombwdsmon
	• **Argymhellion Craffu**	• Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu		**Craffu a Her -** Derbyn argymhellion y Gweithgor Craffu - Datblygu Rheilffyrdd

	• **Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru**	• Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu • Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol		**Craffu a Her –** Trafod Cynigion Drafft Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ynghylch ei adolygiad o Drefniadau Etholiadol y Cyngor
1 Rhagfyr 2021	**Pwyllgor Trosedd ac Anrhefn**	• Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu • Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned • Partneriaeth Cymunedau Diogel		**Craffu a Her –** Craffu ar yr adroddiad diweddaru, gan gynnwys y materion y mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu - Trosedd ac Anrhefn a'r partneriaid sydd wedi'u gwahodd wedi gofyn amdanyn nhw
9 Rhagfyr 2021	• **Argymhellion Craffu**	• Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu		**Craffu a Her –** Derbyn argymhellion y Gweithgor Craffu – Datblygiadau Rheilffordd

	• **Adroddiadau Llifogydd Statudol Adran 19** **(Derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf o'r cyfarfod ar 21.09.21)**	• Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu • Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Rheng Flaen		**Craffu a Her -** Craffu ar adroddiadau statudol Adran 19 ar ddiwedd yr archwiliadau mae'r Cyngor yn eu cynnal i'r Llifogydd ym mis Chwefror, ac yntau'n Awdurdod Llifogydd Arweiniol Lleol dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.
	Cerbydau Trydanol (Strategaeth Gwefru a Gweithredu)	• Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu • Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor		**Craffu a Her –** Derbyn diweddariad mewn perthynas â'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu Strategaeth y Cyngor ar gyfer Gwefru Cerbydau Trydanol a sut mae'n berthnasol i ymrwymiadau ehangach Cyngor RhCT i leihau carbon a Sero Net.
25 Ionawr 2022	• **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**	• Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu		**Craffu a Her -**Craffu ar sut mae'r Cyngor yn cefnogi'r gofynion deddfwriaethol a'u rhoi ar waith.
	• **Asesiad Risg Tân - Adolygiad o'r Gweithdrefnau ar gyfer Adeiladau sy'n eiddo i'r**	• Cynghorydd Iechyd a Diogelwch y Cyngor • Cyfarwyddwr Gwasanaeth –		**Craffu a Her -** Derbyn adolygiad blynyddol o weithdrefnau ar gyfer adeiladau sy'n eiddo i'r Cyngor/sy'n cael eu meddiannu gan y Cyngor.

	Cyngor neu'n cael eu defnyddio gan y Cyngor	Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu		
15 Mawrth 2022	• **Drafft o Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2021/2022** • **Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol**	• Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu • Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu • Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol		**Craffu a Her –** Rhoi cyfle i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu herio a chyflwyno sylwadau ar ddrafft o'r Adroddiad Craffu Blynyddol ar gyfer 2020/21 • A yw'r Adroddiad Blynyddol Craffu yn dangos canlyniadau ac amcanion clir? • A yw wedi dangos yn glir tystiolaeth o ganlyniadau craffu a'u heffaith? • A yw'r Aelodau'n cytuno ei fod yn adlewyrchiad cywir o'r gwaith Craffu ar gyfer 2021/22? **Craffu a Her** Trefniadau cyn y cam craffu mewn perthynas â'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol.

<u>Trosolwg a Chraffu - Materion Parhaus i'w Hadolygu yn y Dyfodol</u>: -

Ymateb y Cyngor i argyfwng Covid-19

Moderneiddio Gofal Preswyl a Gofal Oriau Dydd ar gyfer Pobl Hŷn

Diweddariad – Adolygiad Trosolwg a Chraffu 'Addas ar gyfer y Dyfodol'

Cynllun Adborth Corfforaethol y Cyngor (CFS)

Adborth Craffu

Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Brexit - Y newyddion diweddaraf, ble'n addas

Adborth i ymgynghoriadau perthnasol

Gweithgor Mynegai Amddifadedd Lluosog

Datblygu seilwaith trafnidiaeth ar gyfer y dyfodol mewn ymateb i Metro De Cymru

Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) - Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer RhCT